


cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Mae gennym bellach brif weinidog newydd ym Mhrydain – Gordon Brown yn cymryd lle Tony Blair. Un o'r pethau diddorol yw fod y ddau, mewn cymdeithas sydd bellach yn ddigon seciwlar ei hosgo, yn credu yn Nuw. Un, fel y gwyddom, dan ddylanwad Anglicanaidd/Pabyddol a'r llall dan ddylanwad Protestaniaeth Albanaidd.

A fydd hyn yn gwneud gwa-haniaeth neu beidio i bolisiau y llywodraeth newydd? Mae'n ymddangos mae 'na' fydd yr ateb gan i Gordon Brown eisoes ddatgan mai rhywbeth preifat yw ei ffydd yn Nuw, er ei fod yn dylanwadu ar ei fywyd mewn ffordd gyffredinol.

Ond ai rhywbeth preifat yn unig y dylai ffydd fod? Heb os mae yna bwerau digon grymus ar waith o fewn y blaid lafur a rhai adrannau o'r cyfryngau i symud Duw o'r byd cyhoeddus a phreifateiddio pob math o grefydd a chael seciwlar-iaeth go iawn i reoli. Mae hyn yn anorfod yn mynd i achosi rhyfel diwylliannol. Mae arwyddion o

hyn i'w gweld yn barod pan y daw yn fater penderfynu pa sa-fonau moesol sydd yn gymwys i gymdeithas ac i ba raddau mae hawl gan Gristnogion i wrthod cydnabod deddfau sydd yn mynd yn erbyn eu rhyddid cydwybod. Mae'r llysoedd eto i benderfynu ar rai o'r materion hyn.

Mae hyn yn tanlinellu eto mor bwysig yw hi i ni weddio dros yr awdurdodau sydd. Mae eu hawdurdod yn deillio o Dduw ei hun ac iddo ef y bydd rhaid iddynt roi cyfrif ryw ddydd. Gweddiwn y bydd y llywodraeth newydd yma yn gweithredu cyfiawnder a thegwch gan ganiatau i ni y rhyddid i addoli Duw a byw ein bywydau yn ôl y goleuni sydd yn yr Ysgrythur.

Ond rhaid gweddio hefyd y bydd yna gynnydd mewn rhif Crist-nogion o argyhoeddiad. Mae'n wir fod cymdeithas ar ei hennill pan y mae rhif y saint yn ei phlith yn cynyddu. Mae yna wedyn, i ddefnyddio darlun yr Arglwydd Iesu Grist, fwy o halen y ddaear a mwy o oleuni y byd.

Atgyfodiad

'Dyma'r geiriau a ddywedais i wrthyh pan oeddwn eto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth sydd ysgrifenedig yng nghyfraith Moses, a'r proffwydi, a'r salmau amdanaf fi' (Luc 24:44). Yn adnod 46, cyfeiria'r Iesu yn benodol at ei farw a'i atgyfodiad, a chyfeiria at yr Hen Destament.

ADDEWIDION yr Hen Destament Cyhoeddodd Duw y byddai'r Meseia yn goncwerwr. Ar ddiwedd pennod 52 o Esea, cyflwynir y concwerwr cyn sôn am ei ddioddefaint yn y bennod nesaf, a dychwelyd at oruchafiaeth ar ddiwedd y bennod honno. Nid oedd Duw i adael ei eneiniog yn uffem, ac nid oedd i weld llygredigaeth (Salm 16:10). Ef oedd yr un a fyddai'n eistedd ar ddeheulaw Duw, 'hyd oni osoder ei elynion o dan ei draed' (Salm 110:1). Yn yr adnodau a nodwyd o Luc, dywed yr Iesu i'r addewidion gael eu cyflawni ynddo ef.

FFEITHIAU'R Testament Newydd Cyflwynodd Luc 'draethawd am y pethau a gredir yn ddiamau yn ein plith' (Luc 1:1). Ffrwyth llygad dystion a osododd Luc mewn trefn, fel y medrai Theophilus (yr un y cyflwynodd yr Efengyl iddo) 'gael sicrwydd am y pethau y'th ddysgwyd ynddynt'. Gwyddai Luc a'r apostolion eraill am yr hyn a ddigwyddodd i'r Iesu. Roeddent yn araf i ddysgu'r hyn a ddywedodd yr Iesu, ei fod ar y ffordd i Jerusalem i'w ladd, a'r trydydd dydd atgyfodi (Matthew 16:21). Ond syfrdanwyd hwy gan ddigwyddiad yr atgyfodiad. Y ffaith iddo ddigwydd a drawsnewidiodd eu bywydau hwythau, ac eraill o'r disgyblion. Pan aeth y ddwy Fair yn gythryblus at y bedd, dywedodd yr angel wrthynt, 'Nid yw efe yma canys cyfododd, megis y dywedodd' (Matthew 28:6).

Ceisiodd gelynion yr Iesu wneud yn siŵr o gael ei wared. Gosodasant

faen ar ei fedd. Pan symudwyd y maen, a sylweddoli nad oedd yr Iesu yno, perswadiodd yr archoffeiriaid y milwyr, trwy dâl, i ddweud celwydd am yr hyn a ddigwyddodd. Nid oedd eisiau dweud celwydd am rywbeth na ddigwyddodd.

Wrth gysylltu ei Efengyl â'i lyfr arall, sef Actau, y cyswllt pendant yw'r Crist atgyfodedig (Actau 1:1-3). Parhau i sôn am weinidogaeth y Crist byw a wna Luc yn llyfr yr Actau, a'r un Crist sydd y tu ôl i weddill llyfrau'r Testament Newydd. Y peth olaf a wnaeth y Crist atgyfodedig oedd danfon ei bobl fel tystion iddo, ac addo'r Ysbryd Glân i fod yn nerth iddynt.

TYSTION

Tystiolaeth ysgrifenedig sydd yn yr Ysgrhythurau, ond mae tystiolaeth lafar hefyd. Dywedodd yr Iesu, 'Chwi a fyddwch yn dystion i mi yn Jerusalem, Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear'. Llefarrowd y geiriau hyn ar ôl yr atgyfodiad. Nid oes dim cliriach na thystiolaeth Pedr ar ddydd y Pentecost. Wrth enwi'r atgyfodiad yn benodol, dywed Luc, 'o'r hyn yr ydym ni oll yn dystion' (2:32). Y dystiolaeth i'r ffaith hanesyddol oedd sail ei hyder fel tyst ar ddydd y Pentecost. Mae

Yr atgyfodiad yw sail gobaith y Cristion. Mae ei ffydd mewn un a goncwerodd angau, sy'n ganlyniad pechod.

dau beth arall arwyddocaol yn y bregeth. Mae'n llawn o gyfeiriadau at yr Hen Destament, yn arbennig Salm 16, Salm 110 a Salm 132, sy'n cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd Luc yn ei Efengyl, pennod 24. A'r peth arall yw'r pwyslais ar yr Ysbryd Glân. Nid oes amheuaeth am yr hyn a ddywed Luc: 'Am hynny, wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awron yn ei weled ac yn ei glywed' (Actau 2:33). Rhoddwyd yr Ysbryd i'r Eglwys oherwydd i Grist atgyfodi ac esgyn yn ôl at y Tad.

Yr un yw sail tystiolaeth ei bobl o genhedlaeth i genhedlaeth. Gwyddant i Dduw dderbyn aberth Crist dros bechod oherwydd ei atgyfodiad. Felly gallant ddwyn tystiolaeth iddo yn hyderus.

OBLYGIADAU


1. Yr atgyfodiad yw sail gobaith y Cristion. Mae ei ffydd mewn un a goncwerodd angau, sy’n ganlyniad pechod: ‘Llyncwyd angau mewn buddugoliaeth’. A dyma sail, nid yn unig i barhad yr ysbryd, ond hefyd i atgyfodiad y corff. Neilltuodd Paul bennod gyfan i’r mater hwn yn 1 Corinthiaid 15. A rhyfeddod mawr i loan oedd meddwl am yr un gwirionedd: ‘Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo’ (1 loan 3:2).

2. Atgyfododd, ac esgynnodd Crist yn ein natur ni. Gwyddom yn awr fod y Duw-ddyn yn Eiriolwr ar ddeheulaw Duw, ac yn medru cydymdeimlo â ni (Hebreaid 4:14-6).

3. Cyhoeddodd y ddau ŵr y sonnir amdanynt yn y bennod gyntaf o’r Actau, wrth y disgyblion, ‘Yr lesu hwn, yr hwn a gymerwyd i fyny i’r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i’r nef.’ Fe ddaw yn Farnwr y byw a’r marw yn ei ddyfodiad. Bydd hyn yn llawenydd i’r credadun, ond yn dristwch i’r anghredadun.

4. Ar ôl sôn am wirioneddau mawr ar hyd 1 Corinthiaid 15, dyma adnod olaf y bennod: ‘Am hynny, fy mrodyr annwyl, byddwch yn sicr a diysgog, a helaethach yng ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd’.

Noel Gibbard



Llyfrau i'r cês

Chwilio am lyfr i ddarllen dros yr haf? Beth am un o'r canlynol?

Nofelau a llyfrau ysgafn

Efallai mai'r peth diwethaf y byddai'r athrawon yn ein plith yn dymuno ei wneud dros wyliau'r haf yw cael eu hatgoffa o fywyd ysgol. Ond mae llyfrau Gervase Phinn yn felys ac yn ddoniol – *The Other Side of the Dale, Head over Heels in the Dales, Over Hill and Dale*. Cyn-athro a chyinghorwr addysg yw Gervase Phinn, ac mae'n tynnu ar ei brofiad ei hun wrth ysgrifennu. Efallai y bydd y llyfrau hyn yn helpu'r athrawon i gael golwg ffres ar eu swydd, ac yn rhoi i'r gweddill ohonom fewnolwg i sialensiau byd addysgu.

Neu beth am y gyfres o nofelau sy'n edrych ar fywyd gweinidog dychmygol o'r Unol Daleithiau. Mae cyfuniad perffaith o'r dwys a'r doniol yn y nofelau hyn sy'n dilyn hanes y gweinidog a'i ofalaeth. Yn eu plith y mae *At Home in Mitford, Out to Canaan, A New Son, The Wedding Story a Light from Heaven*.

Llyfrau Cristnogol

Mae *Emynau Ffydd 2* gan Wayne Hughes yn gasgliad o fyfyrnodau ar 100 o emynau Cymraeg, a daw *Geiriau Ffydd: 100 o Fyfyrdodau*

yn Seiliedig ar Rai o Eiriau Mwyaf Cyfarwydd Iesu, gan John Treharne, o'r un gyfres. Dyma ddau lyfr y gellir eu darllen o glawr i glawr, neu daro i mewn ac allan iddynt pan fydd amser gennych. Llyfr newydd arall yw *Caradog Jones: A Forgotten Missionary* gan Noel Gibbard, sef bywgraffiad pregethwr a chenhadwr a fu'n ddylanwad yn ystod diwygiad 1904-5, cyn mynd yn genhadwr i Paimpol yn Llydaw.

Mae *Why Does Being a Christian Have to be So Hard* gan Peter Golding yn llyfr darllenadwy iawn sy'n ymdrin â phroblem ddiwinyddol oesol, sef sut mae Cristion yn ymdopi â phroblemau. Mae'r awdur yn mynd â ni i Hebreaid 12 er mwyn agor y maes. Dyma lyfr sy'n siarad â'r Cristion mewn ffordd ymarferol ac athrawiaethol.

Dau lyfr sy'n mynd â ni nôl at bethau sylfaenol y bywyd Cristnogol yw *The Pursuit of Holiness a Godliness* gan Jerry Bridges. Mae'n siŵr bod y ddau lyfr hyn yn berthnasol i ni fel eglwys o gofio ein bod ni wedi bod yn edrych ar epistol cyntaf Timotheus yn ddiweddar: '*Ond i ymarfer duwioldeb y mae pob gwerth, gan fod ynddo addewid o fywyd yn y byd hwn a'r byd a ddaw.*'

Holi Hwn a Hon

Steve

Sut y dest ti'n Gristion?

Roedd gen i ffrind yn yr ysgol uwchradd a oedd yn Gristion, a thrwyddo fe decheuais i fynd i'r Undeb Cristnogol. Sylweddolais fod gan y Cristnogion yn fanna rywbeth nad oedd gen i, a chlywais am y tro cynta na allwch chi fod yn Gristion heb eich bod wedi eich ail-eni – a gwyddwn nad oedd hynny'n brofiad i fi. Cyn hynny, credais fel y rhan fwya mai ceisio byw yn dda oedd y ffordd i'r nefoedd. Daeth cyfnod wedyn o weddio a gofyn i Dduw fy achub. Allwn i ddim dweud yn gwmws pryd des i'n Gristion, ond digwyddodd hynny'n sicr tra oeddwn yn yr ysgol uwchradd. Ches i ddim dysgeidiaeth na gwir ddealltwriaeth nes i mi ddechrau mynd i'r Undeb Cristnogol yn Aberystwyth. Yno, daeth mwy o gadernid a ffeindio fy mod yn tyfu'n ysbrydol trwy ddysgu gwirioneddau mawr y ffydd am y tro cynta.

Beth yw dy hoff emyn?

Mae hwn yn gwestiwn anodd, ond un sy'n dod i'm meddwl yn aml yw:

*O! fy enaid, cod dy olwg,
Gwêl yn amlwg ben y bryn,
Lle bu Iesu'r Cyfaill ffyddlon,
Dan yr hoelion dur cyn hyn:
Talodd yno swm dy ddyled
Â gwerthfawr waed ei galon friw,
Yr Oen dieuog yno'n marw,
A minnau'r euog yn cael byw.*

Mae hwn yn gosod yr efengyl yn gryno, ac yn f'atgoffa o hyd i godi fy llygaid at Iesu pan yn aml dwi'n ffeindio fy hun wedi colli golwg arno

Pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen?

Dwi wedi bod yn hoff iawn yn y gorffennol o lyfrau ffantasi, ac allech chi ddim cael yn well na'r *Lord of the Rings*. Erbyn hyn dwi'n ffeindio mod i'n darllen llawer llai o lyfrau felly gan fy mod i'n teimlo nad yw dianc i fyd

Bowen

ffantasi o hyd yn beth da. Mae realiti'r efengyl yn gymaint gwell na dianc i fyd ffantasi.

O ran llyfrau Cristnogol, dwi wedi cael blas ar ddarllen y Piwritaniaid er nad ydyn nhw'n rhwydd! Mae eu difrifoldeb am bethau Duw, ac yn enwedig am Air Duw, o hyd yn sialens. Mae llyfr fel *Among God's Giants* gan J. I. Packer yn dipyn o glasur ac yn arweiniad da i'r gweithiau yma. Ar hyn o bryd dwi'n darllen *For The Love of God* gan Don Carson.

Beth sy'n help i ti yn dy gerddediad ysbrydol?

Mae cwmni ac esiamp! Cristnogion eraill o hyd yn galondid, ond y prif beth wrth gwrs yw darllen y Gair (ac yn aml y peth mwya anodd). Dwi'n aml yn ffeindio fy hun am gael rhyw quick fix wrth ddarllen y Gair ac yn pw-yso gormod ar deimladau. Ond dwi'n gwybod mai darllen Gair Duw yn ffyddlon ac yn gyson sy'n fy nghadw ar y llwybr cywir. Mae



(ch i dd) Morus, Lois, Fflur a Steve

hi'n ddeléit i ddysgu, er mor fawr yw ein Duw y mae'n ymwneud yn bersonol ag unigolion ac yn delio â nhw yn ôl eu hanghenion. Dyma'r un Duw sydd am ddelio gyda fi, ac wedi'r cyfan does neb yn fy nabod yn well nag Ef.

Sut y byddi di'n treulio d'amser hamdden?

Pa amser hamdden? Na, dwi wrth fy modd yn treulio amser gyda'm teulu ac yn chwarae gyda'r plant. Ar wahân i hynny, rhaid cyfadd-ef fy mod i'n gwneud gormod o eistedd o flaen y teledu . . . ond dwi'n mwynhau chwarae bad-minton yn achlysurol – mae angen chwarae yn fwy aml (pwy sydd am gêm?)

Chwilio yng ngeiriau

Emyr James

Dros yr Haf mae person yn cael ei atgoffa o faint sîn cerddoriaeth Prydain. Gyda digwyddiadau enfawr megis Glastonbury, Reading a'r V festival, heb sôn am ddigwyddiadau yng Nghymru megis Gŵyl Macs, Fflam a Wakestock, mae'r dylanwad sydd gan gerddorion ar y boblogaeth yn amlwg. Ond pa negeseuon sydd gan y bandiau hyn i'w cyfleu? Mae un thema'n dod i'r amlwg yn gyson, a honno'n . cael ei hamlygu orau efallai yn y llinellau hyn gan dri grŵp gwahanol iawn.

Everybody's looking for that something
Westlife

I still haven't found what I'm looking for
U2

I'm just looking, I'm not buying
Stereophonics

Efallai nad ydych chi'n hoff o'r bandiau hyn, ond mae'n rhaid cyf-

addef bod elfen o wirionedd yn y geiriau. Mae pawb fel pe baen nhw'n chwilio am rywbeth. Pe bai rhywun yn gofyn am beth maen nhw'n chwilio, mae'n siŵr mai un o'r atebion mwyaf cyffredin fyddai 'Hapusrwydd'. Mae pobl yn chwilio am yr hapusrwydd hwn mewn nifer fawr o lefydd, megis chwaraeon, bwyd, diod, ffilmiau, natur, teithio, cyffuriau, antur, paentio, cerddoriaeth, rhyw, llyfrau a.y.y.b.

Ydy hyn yn swnio'n gyfarwydd i chi? Beth ydych chi'n meddwl



Geiriau'r gân

fyddai'n eich gwneud chi'n hapus? Arian? Enwogrwydd? Cariad? Y gwir yw, er bod y pethau hyn i gyd yn cynnig elfen o bleser, nid ydynt yn ein digoni mwn gwirionedd. Mae'r Beibl yn dangos hyn inni mewn stori am am ŵr cyfoethog a gasglodd lawer o eiddo. Roedd ganddo bopeth roedd arno ei eisiau. Ond yna – yn sydyn – bu farw. Ac mae'r stori'n gorffen â'r geiriau syfrdanol:

Beth ydy'r pwynt o gael popeth sydd gan y byd i'w gynnig, a cholli'r enaid?

(Marc 8:35 cyfieithiad Beibl.net.)

Dyna yw'r broblem fawr – hyd yn oed pe baen ni'n cael popeth rydym ni ei eisiau, ni fyddai yn ein bodloni oherwydd nad ydym mewn perthynas â Duw. Pan fu farw Iesu ar y groes, agorodd ffordd i ni ddod at Dduw, i'n hachub rhag yr holl bethau drwg rydym ni wedi eu gwneud, a sicrhau lle i ni yn y nefoedd am dragwyddoldeb. Mae gan y Cristion lawenydd ym mhob sefyllfa, hyd yn oed os yw'n dlawd ac yn llwgu, oherwydd mae'n gwybod fod ei drysor ef yn

y nefoedd. Efallai eich bod chi'n teimlo'n ddigon hapus, ond oes gennych chi'r llawenydd a'r sicrwydd sydd yn dod o dderbyn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr dros eich bywyd?

Nac oes? Wel gwrandewch ar y geiriau hyn o lyfr Eseia 55:6:

Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos.

Efallai nad canwr pop enwog sydd yn dweud y pethau hyn ond mae Eseia yn amlwg wedi dod o hyd i rhywbeth mae ef eisiau ei rannu â ni. Dydy e ddim yn chwilio bellach. A does dim rhaid i chithau wneud chwaith.



CD newydd Rel

Adolygiad gan Huw Pritchard

Pum cerddor yn eu hugeiniau yw Relient K, sydd bellach wedi eu sefydlu'n grŵp poblogaidd yn America. Mae digon i'w fwynhau ar eu CD diweddaraf a gyrhaeddodd rif tri yn y siartiau ac a ymddangosodd ddwy flynedd ar ôl eu clasur *Mmhm*. Erbyn hyn mae Matthew Thiessen, prif leisydd y grŵp a'i gyfansoddwr talentog, yn wynebu canol ei ugeiniau, ac yn gorfod tyfu lan a ffarwelio â sloganau ffraeth grŵp pop pync yn eu harddegau.

Mae pedair cân ar ddeg i'w clywed ar y CD. Cân fer accapella yw'r gyn-
taf, 'Pleading the Fifth', sy'n amlygu hoffer o harmonïau'r Beach Boys ac yn f'atgoffa o'r ffaith nodweddiadol mai Americanwyr yw'r grŵp.

Beth sy'n gwneud Relient K yn berthnasol i Gymry 2007 felly? Wel, erbyn yr ail gân, 'Come Right Out and Say it', mae'r ateb yn glir! Dyma gerddoriaeth gyfoes sy'n codi calon ac yn swnio'n gyfarwydd i bobl ifanc a fagwyd yn nhraddodiad Green Day ac yn fwy diweddar, Busted, McFly a degau

o fandiau eraill sy'n hedfan baner pop pync pwerus. Y gwahaniaeth sylfaenol yng nghaneuon Relient K yw bod ganddynt ddawn wreiddiol i fynegi eu ffydd a'u cerddeddiad ysbrydol/profiadau pob dydd mewn ffyrdd mor ddif-yr, didwyll ac onest. Nac oes, does dim moliant fertigol i Dduw yn uniongyrchol yn y gân hon, ond yn hytrach cawn gipolwg ar densiynau Thiessen a'i berthynas â dynolryw sy'n arbenigo mewn cadw'n dawel a gobeithio y bydd y problem yn diflannu.

Cân 3, 'I Need you'. Er gwaethaf ymdrechion y canwr i gloddio mewn tywod gan greu waliau a llanast o'i gwmpas er mwyn llenwi'r gwacter o'i fewn, yr unig beth sy'n newydd ynddo ar ôl ei ymdrechion tila yw 'a brand new void inside of me.' Ymbil pellach sy'n coronîr gytgan:

*Please shine a light into the black
Wade through the depths and bring
me back.*

Hyn oll i gyfeiliant anthem o'r

ient K

egni a'r safon ddisgwyliedig – ond wyddoch chi be? Os eisteddych a darllen y geiriau, cewch eich gwobrwyo wrth werthfawrogi cynildeb y neges sy'n datgan bod ei Dduw wedi clywed ei weddïau. A dyna hyfryd yw gogoneddu Duw ffyddlon yn y fath fodd. Rhagorol.

Cân 4. Wel, wel, wel. Mae'n amlwg yma bod Matthew wedi syrthio mewn cariad – ac yn barod i ddatgelu ei awydd i geisio â'i holl gallon a'i feddwl i wneud bywyd ei gariad newydd gystal ag ymdrechion

i wella ei fywyd ef. Mae piano mawr ac Oh-oh's canu cefndirol y ddau aelod newydd yn atgoffa rhywun o grwpiau eraill, ond yn aros yn ffyddlon i sŵn cyffrous Relient K erbyn y diwedd.

Mae Cân 5, 'Forgiven', yn adlais gerddorol o 'New Year's Day' gan U2 ac yn anogaeth i ddynolryw i gofio neges/ffaith Rhufeiniaid 3:23 tra'n ymbil ar ei gyd-ddyn '...and I hope you can forgive me too'.

Er bod Theissen yn dewis gosod ei ganeuon yn y person cyntaf ac yn adrodd storïau/bywgraffïadau/hunanfyfyrdodau amrywiol, mae pob cân yn debyg i'w gilydd



yn yr ystyr mai Duw Hollalluog yw ei gyd-gyfansoddwr fel petai! Mae angen y canwr i gydnabod ei angen i newid yn thema gyson yn y caneuon nesaf: 'I must have done something right', 'Give until there's nothing left' a 'Devastation and Reform'.

Erbyn cyrraedd cân 11, mae'n am-lwg fod y CD hwn yn gam ymlaen i grŵp pync a ddechreuodd eu gyrfa yn canu 'Marilyn Manson ate my Girlfriend'. Er y bydd llawer o'u cefnogwyr cynnar yn siomedig nad oes sylwadau ysgafn sy'n beirniadu cyfoedion ar y CD hwn, rhaid ystyried y broses o aeddfedu a datblygu'n un angenrheidiol (i unrhyw grediniwr!)

Cân 12. A dyma ni nôl at ddechrau'r CD a chyingor y canwr iddo'i hun i frathu ei dafod a gwranddo ar lais arall:

*The most crucial thing I lack is a thing called tact
So I'll swallow up my pride and give you control.*

Cân 13. Rhagor o Oh-oh's – cân obeithiol sy'n codi gwên ac yn ein hannog i fod yn bobl well iddo Fe. Bendigedig! – Ond, arhoswch!

Mae gen i ffrind ifanc. Hyd y gwn i dydy e ddim yn Gristion.

Ond wyddoch chi be? Mae e'n ffan o Relient K! Rhaid gofyn y cwestiwn felly, beth yw ymateb person o'r fath i gân 14, 'Death-bed'? Dyma 11 munud o epig sy'n adrodd (mewn dull Ben Folds/ Bob Dylan ar biano) hanes bywyd a thröedigaeth cymeriad (ffuglen-nol?) sy'n aroglu marwolaeth yn ei orchuddio ar ei ddillad gwely ond sy'n gallu ymddiried yn yr Iesu a chwiliodd amdano ac a'i cariodd adre.

*I am the way
Follow me and take my hand
And I am the truth
Embrace me and you'll understand
I am the life
Through me you'll live again
For I am love.*



Five Score and Seven Years Ago
Relient K
Capitol, 2007

Menter Ysgolion

Gwen Emyr

Yn ystod tymor haf 2007 parhawyd â'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau a gwersi i nifer o blant. Dosbarthwyd 900 o gopiau o'r llyfr *Y Cam Nesaf* i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi ar gyfer symud i'r ysgolion uwchradd. Gwerthfawrogwyd y cyfieithiad Cymraeg yn fawr, a defnyddiwyd y fersiwn Saesneg, *It's Your Move*, gyda disgyblion yr unedau Saesneg mewn tair ysgol: Ysgol Creigiau, Gwaelod-y-Garth a Heol y Celyn.

Datblygiad arall, ar y cyd â beibl.net, fu cynhyrchu pensiliau ac arnynt y geiriau 'Beibl.net – y Beibl i ti'. Cafwyd ymateb da i'r pensiliau sy'n gymorth i atgoffa'r disgyblion a'u hathrawon am fodolaeth yr adnoddau gwerthfawr sydd i'w cael ar y wefan www.beibl.net. Erbyn hyn mae nifer gynyddol yn defnyddio'r wefan honno, ac rydym yn ddiolchgar i'r Parch. Arfon Jones, Caerdydd, am ei waith ymroddedig yn paratoi ac arolygu gwefan beibl.net yn gyson.

Mae'r gweithwyr ysgolion sy'n gwasanaethu Menter Ysgolion Cymraeg a mentrau tebyg mewn gwled-

ydd eraill yn gwerthfawrogi'n fawr bob cymorth a chefnogaeth, yn arbennig cefnogaeth gweddi. Mae'r gwaith yn ddyledus i Open Air Campaigners (OAC), a dau o'u harweinwyr yw Korky ac Anni Davey. Llafuriodd Korky yng ngwaith OAC mewn sawl gwlad dros 30 o flynyddoedd. Ar 5 Mehefin cefais gyfle i ymweld â nhw yn eu cartref ym Mryste, a chael budd arbennig o siarad â nhw am eu gwaith a'u gweledigaeth, a gwyllo Anni yn arwain dau wasanaeth yn nwy o ysgolion cynradd ei hardal. Mae Korky Davey wedi gwe-gyhoeddi llyfr diddorol sy'n sôn am waith OAC a themâu cysylltiol, *Biblical Patterns of Evangelism*, ac mae'r llyfr hwnnw, ynghyd â llyfr diddorol arall gan yr un awdur, *Jesus – Faith and Fact*, ar gael ar y wefan www.korky.info. Mae *Biblical Patterns of Evangelism* yn rhoi cip darganfyddus ar natur a photensial gwaith OAC sydd, mewn rhai ffyrdd, yn ymdebygu i'r math o waith awyr agored a welir ar ddalennau'r Testament Newydd ac a welwyd yng Nghymru ar adegau deffröedig yn ein hanes.

Diolch am weddiâu'r eglwys.

Cofio Alma

Noel a Helen Gibbard



Un o blant y Meinciau, sir Gaerfyrddin oedd Alma, a chanddi gysylltiadau hefyd â Bancffosfelen. Ychydig flynyddoedd y bu gyda ni yn yr eglwys, ond cofiwn amdani, flynyddoedd yn ôl, yn ymweld a Thŷ'r Cymry. Oherwydd ei gwaith roedd yn adnabyddus ledled Cymru, ond cofiwn ni amdani fel eglwys. Ar hyd y blynyddoedd bu'n ffyddlon iawn; yn agos at bawb, a bydd aelodau cwrdd bore dydd Mawrth yn sicr o'i cholli hi a'i chyfraniad gwerthfawr.

Roedd gwasanaeth yr angladd, yn ôl dymuniad Alma, yn gyfle i

ddiolchi Dduw a dwyn tystiolaeth i'r efengyl. Nid oedd ganddi gywilydd o'i Gwaredwr, a gwelodd yn glir oblygiadau ymarferol ei chred. Yn aml iawn cyfeiriai at Epistol Iago, yr ail bennod yn arbennig. Roedd 'derbyn wyneb' yn atgas ganddi, a chydymdemlai â 'thlodion y byd hwn'. Gwnaeth waith gyda'r digartref, ac yn ddiweddar bu'n cynorthwyo yn ysbyty Felindre. Cyfrifai hyn yn gyfle, nid i roi bwyd yn unig, ond i siarad â'r anghenus hefyd. Treuliai ddau ddiwrnod bob wythnos ar ei stondin hen bethau yn Splott. Arwydd o natur ei thystiolaeth yw'r enw a gafodd yno, sef 'Mrs Ficer'.

Gwerthfawrogai Alma brydferthwch. Mynegiant o hyn oedd ei hoffder o drin blodau, ac roedd yn feistres ar y grefft. Cymerai ddiddordeb mewn cerddoriaeth, a medrai ganu'r piano. Ac, yn sicr, roedd prydferthwch a chân yn ei bywyd hithau. Mawr oedd y croeso ar ei haelwyd, a dymunwn i Ricci a Rhys, ddiddanwch yr efengyl yn eu colled.

Newyddion

Llongyfarchiadau i Eleri James a Jonathan Glanfield ar eu dyweddïad. Rydym yn llawenhau gyda nhw, ac yn falch iawn eu bod yn mynd i ym-gartrefu yng Nghaerdydd.

Ry'n ni hefyd yn llongyfarch Eleri ar dderbyn ei doethuriaeth yn ddiweddar, ac Emyr James ar rad-dio o Brifysgol Aberystwyth.

Aeth y trip gwragedd (a phlant) eleni i Dŷ Tredegar, lle'n anfodus roedd y siop goffi ar gau! Cafwyd amser braf iawn yn y parc (gweler y llun isod), cyn symud ymlaen i ganolfan arddio leol am fwyd, a'r baned angenrheidiol.

Mae'n braf cael croesawu Nerys Williams yn ôl atom wedi iddi dreulio chwech wythnos yng ngwlad Thai yn gweithio gyda phlant sy'n byw ar y strydoedd yno, ac yn ymweld â'r slymiau. Mae'r plant o gefndiroedd amrywiol - rhai wedi cael eu gadael gan eu rhieni ac eraill gyda rhieni yn y carchar. Cafodd Nerys gyfle tra yno i ymweld â charchar yno, a'r profiad yn amlwg yn un ysgytwol. Mae'r gweithwyr buodd Nerys yn ymuno â nhw yn ymweld â'r llefydd hyn yn wythnosol i ddosbarthu bwyd a diod a cheisio dangos cariad Crist i deuluoedd a phlant sy'n byw mewn amgylchiadau mor ddirddynol.



Casglodd criw ohonom at ein gilydd ar ddiwedd mis Mehefin i fwynhau picnic y capel - yn y capel! Er y glaw tu fas, cafwyd amser braf iawn o sgysio, bwyta a chwarae. Diolch i Catrin am yr *hot dogs* a'r salad blasus, ac i'r bobl ifanc am edrych ar ôl y plant bach!

Llongyfarchiadau mawr i Rhodri ac Anwen Jones ar enedigaeth Iolo – brawd bach i Elliw, ac i Geinor ac Owain Pennar ar enedigaeth Gwern. Rydym wedi mwynhau cael presenoldeb y ddau bach yn yr oedfaon eisoes. Dymunwn bob nerth iddynt fel teuluoedd.

Yn y cyfarfod aelodau diwethaf, fe rannwyd y newyddion bod Noel Gibbard yn dymuno ymddeol o'i gyfrifoldeb fel Henuriad yn yr eglwys. Bu'n ymwneud â chyfrifoldeb arwain o fewn yr eglwys ers ei chychwyn, a chyfrannodd yn helaeth iawn i'w waith dros y blynnyddoedd. Diolchwn iddo am yr hyn a wnaeth dros ei Waredwr yn yr eglwys leol. Mae Phil Elis hefyd yn dymuno cael hoe o'i gyfrifoldeb fel henuriad oherwydd pwysau gwaith dros dro.

Dros yr Haf gweddiwch dros:

Gweithgarwch yr Eisteddfod Genedlaethol, 4 – 11 Awst, a'r gwaith cenhadu fydd yn digwydd ar y maes, ac yn arbennig ym mhobell fwyd y Gorlan.

Gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru yn Quinta a Brynnygroes, 11 – 18 Awst. Bydd nifer o'n haelodau yn gweithredu fel arweinwyr a swyddogion, a nifer o'n plant a'n pobl ifanc yn mynychu fel gwersyllwyr.

Cynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru, Aberystwyth, 18 – 24 Awst, pryd y bydd Sulwyn Jones yn cymryd at y prif anerchiadau.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George,
Noel Gibbard,
Amanda Griffiths,
Christine James,
Catrin Lewis,
Gwynn Williams

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos... (Ag eithrio mis Awst)

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | Newid amser: 10.00 - 11.30am

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/
Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a
chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Gorffennaf</i>	<i>29</i>	<i>Lewis Roderick</i>
<i>Awst</i>	<i>5</i>	<i>Sulwyn Jones</i>
	<i>12</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>19</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>26</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Medi</i>	<i>2</i>	<i>I'w drefnu</i>
	<i>9</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>16</i>	<i>Lewis Roderick</i>
	<i>23</i>	<i>Dafydd P. Morris</i>
	<i>30</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Hydref</i>	<i>7</i>	<i>Gwynn Williams / Lewis Roderick</i>
	<i>14</i>	<i>Gwynn Williams</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays
Caerdydd